

Enw'r Ymgeisydd	Rhif y Ganolfan	Rhif yr Ymgeisydd

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd



WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

General Certificate of Secondary Education

178/52

**TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU**

**PAPUR 2**

(Haen Sylfaenol – Graddau G i C)

A.M. DYDD MERCHER, 7 Mehefin 2006

(1 Awr)

<b>I'r Arholwr yn unig</b>	
<b>Cyfanswm y Marciau</b>	

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn. Os nad oes gennych ddiagon o le, cewch barhau â'ch ateb yng nghefn y llyfryn, gan ofalu nodi rhif y cwestiwn yn gywir.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

1. Ticiwch (✓) y golofn gywir i ddangos a yw **pob** dyfais yn cael ei defnyddio ar gyfer **Mewnbynnu** neu **Allbynnu**. [6]

<i>Dyfais</i>	<i>Mewnbynnu</i>	<i>Allbynnu</i>
Argraffydd		
Microffon		
Llygoden		
Camera Digidol		
Plotydd Graffiau		
Monitor		

2. Mae hysbyseb ar gyfer cyfrifiadur yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

256 Mb RAM Disg Caled 400 Gb Gyriant CD/DVD Disg Hyblyg 1.44 Mb
--

- (a) Rhowch **ddwy** ddyfais storfa gynorthwyol (*backing storage devices*) *fagnetig* a ddefnyddir gan y cyfrifiadur hwn. [2]
- (i) .....
- (ii) .....
- (b) (i) Enwch **un** ddyfais *optegol* a ddefnyddir gan y cyfrifiadur hwn. [1]
- .....
- (ii) Ticiwch (✓) y blwch cywir isod i ddangos pa **un** o'r gosodiadau hyn am ddisgiau *optegol* sy'n gywir. [1]

	<i>Cywir</i>
Nid yw magnetau yn achosi difrod i ddisgiau optegol.	
Nid yw plygu disgiau optegol yn achosi difrod iddynt.	
Mae gan ddisgiau optegol fwy o gof na'r rhan fwyaf o ddisgiau caled.	

(c) (i) Mae *RAM* yn sefyll (*yn Saesneg*) am

*R* ..... *A* ..... *M* ..... [1]

(ii) Ticiwch (✓) y blychau cywir isod i ddangos pa **ddau** o'r gosodiadau hyn sy'n gywir. [2]

	<i>Cywir</i>
Cof yw <i>RAM</i> .	
Meddalwedd yw <i>RAM</i> .	
Defnyddir <i>RAM</i> i storio data ar ôl i'r cyfrifiadur gael ei ddiffodd.	
Defnyddir <i>RAM</i> i storio data wrth ddefnyddio'r cyfrifiadur.	

(iii) Gellir uwchraddio'r *RAM* yn y cyfrifiadur hwn i 512 Mb.  
Rhowch **un** fantais uwchraddio'r *RAM* i 512 Mb. [1]

.....

3. Mae gan ysgol system gyfrifiadurol yn ei llyfrgell.

(a) Enwch **ddwy** ffordd o roi'r data am lyfrau ar y cyfrifiadur. [2]

(i) .....

(ii) .....

(b) Rhowch **ddwy** o fanteision defnyddio system gyfrifiadurol mewn llyfrgell yn hytrach na system law (*manual system*). [2]

(i) .....

(ii) .....

4. Mae systemau cyfrifiadurol yn cael eu rhwydweithio pan gânt eu cysylltu â'i gilydd.

(a) Un math o rwydwaith yw RAL (*LAN*).

Ysgrifennwch am beth mae RAL yn sefyll:

R ..... A ..... L ..... [1]

(b) Math arall o rwydwaith yw RAE (*WAN*).

(i) Ysgrifennwch am beth mae RAE yn sefyll:

R ..... A ..... E ..... [1]

(ii) Rhowch **un** enghraifft o RAE. [1]

.....

(c) Gellir trefnu rhwydwaith cyfrifiadurol fel *rhwydwaith seren*.

Yn y lle gwag isod, lluniadwch a labelwch ddiagram o *rwydwaith seren*. Dangoswch safleoedd y gweinydd ffeil, y gweithfannau a'r argraffydd ar eich diagram. [4]

(ch) Heblaw am rwydwaith seren, enwch **un** math arall o dopoleg (*topology*) rhwydwaith cyfrifiadurol. [1]

.....

(d) Rhowch **ddau** ddull o ddiogelu data ar rwydwaith. [2]

(i) .....

(ii) .....

5. (a) Ticiwch (✓) y golofn gywir i ddangos a yw **pob un** o'r gosodiadau canlynol am system weithredu yn gywir neu'n anghywir. [3]

	Cywir	Anghywir
Mae system weithredu yn enghraifft o galedwedd.		
Meddalwedd sy'n rheoli'r cyfrifiadur yw system weithredu.		
Ni fydd cyfrifiadur yn gweithio oni bai bod y system weithredu ganddo.		

- (b) Ar gyfer **pob un** o'r canlynol, enwch system weithredu addas o'r rhestr isod.

**swp-brosesu**

**trafod (transaction) amser real**

**prosesu amser real**

- (i) Rheoli adweithydd niwclear.

[1]

.....

- (ii) Archebu tocynnau sinema.

[1]

.....

- (iii) Rhestr gyflogau.

[1]

.....

6. Cyflwynwyd y *Ddeddf Gwarchod Data* i warchod data personol sy'n cael eu storio ar gyfrifiaduron. Mae gan y *Ddeddf* wyth egwyddor.

- (a) Ysgrifennwch **dair** o'r egwyddorion hyn. [3]

(i) .....

(ii) .....

(iii) .....

- (b) Ticiwch (✓) y blychau cywir i ddangos pa fathau o ddata isod sydd wedi'u **heithrio** (*exempt*) o dan y *Ddeddf Gwarchod Data*. [2]

Data sydd i gael ei ddefnyddio ar gyfer:

- (i) defnydd y cartref neu ddefnydd personol;

- (ii) cofnodion ystadegol;

- (iii) cofnodion ysgol;

- (iv) cofnodion cwsmeriaid.

7. Disgrifiwch **ddwy** drosedd y gellid ymdrin â hwy o dan y Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron.  
*Mae enghraifft wedi'i gwneud i chi.* 2 × [2]

Defnyddio cerdyn credyd sydd wedi cael ei ddwyn i brynu nwyddau ar-lein.

Trosedd 1: .....

.....

Trosedd 2: .....

.....

8. Defnyddir prif gyfrifiaduron nerthol ar gyfer rhagolygon y tywydd.

- (a) Rhowch **un** rheswm pam y defnyddir prif gyfrifiaduron nerthol yn hytrach na chyfrifiaduron personol ar gyfer rhagolygon y tywydd. [1]

.....

.....

- (b) Enwch **dri** math gwahanol o synhwyrydd a ddefnyddir i gasglu data ar gyfer rhagolygon y tywydd. [3]

(i) .....

(ii) .....

(iii) .....

9. Mae dadansoddydd systemau wedi cael ei gyflogi i ddylunio system gyfrifiadurol newydd ar gyfer rhestr gyflogau.

(a) Rhestrwch y **pedwar** prif gam y bydd y dadansoddydd systemau yn eu dilyn i gynhyrchu system gyfrifiadurol newydd. [4]

(i) .....

(ii) .....

(iii) .....

(iv) .....

(b) Heblaw am *enw* a *chefeiriad*, rhestrwch **bedwar** maes y gellid eu cynnwys yng nghofnod **rhestr gyflogau** gweithiwr. Rhaid mai'r *maes allweddol* yw un o'r rhain. [4]

(i) Maes allweddol: .....

(ii) .....

(iii) .....

(iv) .....

10. Mae gan bob cyfrifiadur ryngwyneb defnyddiwr.

Un rhyngwyneb o'r fath yw Rhyngwyneb Defnyddiwr Graffigol (RDG) (*Graphical User Interface (GUI)*). [4]

(a) Rhestrwch **bedair** o nodweddion RDG.

(i) .....

(ii) .....

(iii) .....

(iv) .....

(b) Enwch **un** math *arall* o ryngwyneb defnyddiwr. [1]

.....

